



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ynghylch seilwaith i roi mynediad i Fand Eang
y Genhedlaeth Nesaf yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 9 Medi 2016
Camau i'w cymryd: 9 Hydref 2016

Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn yw cadarnhau'r ardaloedd hynny lle nad oes seilwaith i roi mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf (NGA) sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf, neu'r ardaloedd hynny lle nad oes unrhyw gynlluniau i greu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn caniatáu i gwmnïau telathrebu, ac unrhyw randdeiliaid eraill sydd â diddordeb, roi sylwadau ar yr ardal ymyrryd NGA arfaethedig cyn ymrwmo i ehangu'r gwasanaeth ymhellach.

Mae Llywodraeth Cymru yn ehangu gwasanaethau band eang drwy Gymru.

Sut i ymateb

Anfonwch e-bost at NGA@cymru.gsi.gov.uk gan roi "Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus Llywodraeth Cymru" fel testun y neges.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae copi o'r ddogfen hon ar gael mewn Braille ac ieithoedd eraill ar gais.

Map rhyngweithiol – Ardaloedd NGA Gwyn Arfaethedig
O fewn y Cwmpas ac Ardaloedd y tu allan i'r Cwmpas

- <http://lle.gov.wales/map/nga?lang=cy>

Data am god post Ardaloedd Ymyrryd (Gwyn)
Arfaethedig Cymorth Gwladwriaethol

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn ygn nghyd-destun Cymorth Gwladwriaethol, anfonwch e-bost at dîm yr Ymgynghoriad NGA:

NGA@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y defnyddir y sylwadau a'r wybodaeth a gawn gennych

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth

Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, weithiau mae'n bosibl fod rhesymau pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ehangu'r gwasanaeth band eang cyflym iawn ymhellach drwy Gymru.

Ar 19 Gorffennaf 2012, dyfarnwyd y contract i ddarparu band eang cyflym iawn mewn ardal ymyrryd benodol i British Telecommunications (BT) a chafodd y cwmni £205 miliwn o arian cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol. Yn dilyn ei hymgyngoriad diweddaraf rhwng 3 Mehefin a 3 Gorffennaf 2014, penderfynodd Llywodraeth Cymru ymestyn contract BT a chynnwys ardal ymyrryd benodol arall gan ddefnyddio £19.4 miliwn o arian cyhoeddus gyda chymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol.

Mae'r contract â BT yn cynnwys darpariaethau i sicrhau bod yr holl arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio. Yn ogystal â hyn, os bydd y nifer sy'n penderfynu defnyddio gwasanaethau band eang cyflym iawn yn fwy nag a ragwelwyd yn y contract, byddai swm y cymhorthdal cyhoeddus gofynnol yn gostwng i adlewyrchu hyn. Bydd unrhyw gyllid a rhyddhawyd ar gael wedyn i'w ail-fuddsoddi mewn cynlluniau i ehangu band eang cyflym iawn ymhellach o dan delerau'r contract.

Ym mis Awst 2015, cyhoeddodd BT fod y nifer a fydd yn defnyddio gwasanaeth band eang cyflym iawn drwy'r DU yn debygol o fod yn fwy na'r hyn a ragwelwyd, sef 20%. Hyd yma, mae BT wedi trosglwyddo hyd at £129 miliwn yn y DU i fodloni'r ymrwymadau cytundebol uchod. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael dyraniad cychwynnol o £12.9 miliwn ac mae'n bwriadu ail-fuddsoddi'r arian i ehangu'r gwasanaeth ymhellach fel rhan o'r contract presennol.

I hwyluso'r broses ail-fuddsoddi hon, cynhelir yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn i gadarnhau'r ardaloedd hynny lle nad oes seilwaith i roi mynediad i wasanaeth band eang y genhedlaeth nesaf (NGA) sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf, neu'r ardaloedd hynny lle nad oes unrhyw gynlluniau i greu seilwaith o'r fath dros y tair blynedd nesaf. Disgrifir y rhain fel "ardaloedd NGA Gwyn".

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd cwmnïau telathrebu ac unrhyw randdeiliaid sydd â diddordeb i roi sylwadau ar yr ardaloedd NGA Gwyn arfaethedig. Bydd yr ymatebion a ddaw i law'n helpu Llywodraeth Cymru wrth iddi fynd ati fuddsoddi yn y dyfodol.

Gan ystyried canlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'i chynigion terfynol ar gyfer yr ardaloedd NGA gwyn gerbron Canolfan Gymhwysedd Genedlaethol Broadband Delivery UK (BDUK) i'w cymeradwyo. Bydd hyn yn caniatáu i Lywodraeth Cymru baratoi cynlluniau i ail-fuddsoddi'r arian.

2. Amserlenni

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn yng nghyd-destun Cymorth Gwladwriaethol yn agor o'r 9 Medi 2016 a bydd yn parhau am un mis calendr tan 9 Hydref 2016.

Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yng nghyd-destun Cymorth Gwladwriaethol, ac ar ôl i Lywodraeth Cymru benderfynu'n derfynol ar yr ardaloedd NGA Gwyn, ac i BDUK eu cymeradwyo, bydd Llywodraeth Cymru a BT yn cytuno ar newidiadau i'r contract ac yn ail-fuddsoddi'r arian a ddyrannwyd i ehangu'r gwasanaeth band eang cyflym iawn.

3. Mapio mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf (NGA)

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg byr o'r dulliau o fapio NGA a hynny er mwyn helpu'r cyhoedd i ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yng nghyd-destun Cymorth Gwladwriaethol. Mae'r map o'r ardaloedd NGA ar gyfer ymgynghoriad Llywodraeth Cymru i'w weld drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: <http://lle.gov.wales/map/nga?lang=cy>

Cynlluniwyd rheolau cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd i sicrhau bod unrhyw arian cyhoeddus ('Cymorth Gwladwriaethol') yn cael ei dargedu at ardaloedd lle mae'r farchnad wedi methu ac yn arwain at ganlyniadau masnachol da gan ystumio'r farchnad cyn lleied â phosibl.

O dan reolau cymorth gwladwriaethol, rhaid targedu ymyriadau cyhoeddus mewn ffordd sy'n cyfyngu ar y perygl i gyrff yn y sector preifat gael eu gwasgu allan o'r farchnad neu i benderfynu nad yw o fudd iddynt fuddsoddi mewn prosiectau a fyddai, fel arall, yn cyflawni'r amcanion polisi a ddymunir, neu rhag bwrw ymlaen â chynlluniau pendant i fuddsoddi mewn cynlluniau o'r fath. Yng nghyd-destun band eang, yn ôl penderfyniad Cymorth Gwladwriaethol 2012, dim ond yn yr ardaloedd daearyddol hynny lle nad oes gwasanaeth band eang cyflym iawn, a lle y mae'n annhebygol y caiff ei ddatblygu yn y dyfodol agos (yn ystod y tair blynedd nesaf), y caniateir defnyddio arian cyhoeddus i'w ehangu.

Mae '*EU Guidelines for the application of State Aid rules in relation to the rapid deployment of broadband networks*' (2013/C 25/01) i'w gweld yn:

<http://eurlex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:C:2013:025:0001:0026:EN:PDF>

Nod y buddsoddiad ychwanegol yw darparu seilwaith i roi mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf.

Nod yr ymyrraeth hon yw ail-fuddsoddi'r arian yn yr ardaloedd hynny a ddynodwyd yn ardaloedd NGA gwyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus diwethaf (a gynhaliodd Llywodraeth Cymru rhwng 3 Mehefin a 3 Gorffennaf 2014) a lle na fu unrhyw gynlluniau ers hynny i ddarparu band eang cyflym iawn fel rhan o'r contract presennol rhwng Llywodraeth Cymru a BT. Yn ogystal â hyn, mae'r ardaloedd NGA gwyn a fapiwyd ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus presennol hefyd yn cynnwys ardaloedd a ddynodwyd yn ardaloedd NGW llwyd yn yr ymgynghoriad blaenorol yn 2014 ond bod Llywodraeth Cymru wedi cael gwybod, ers yr ymgynghoriad hwnnw, nad oes gan gyflenwr rwydwaith yn yr ardaloedd hynny bellach neu fod cynlluniau cyflenwr ar gyfer yr ardaloedd hynny wedi newid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi newid y ffordd y mae'n mapio ardaloedd ers yr ymgynghoriad cyhoeddus diwethaf ac, yn awr, mae ardal yn ardal NGA Gwyn os yw cyflymder band eang yn yr ardal honno'n llai na 30Mbps, yn hytrach na 15Mbps, fel yr oedd cynt. O ganlyniad, mae nifer yr ardaloedd NGA gwyn ar y map wedi cynyddu.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i roi blaenoriaeth i'r ardaloedd NGA Gwyn hynny y mae angen eu gwella fwyaf, h.y. lle nad oes dim seilwaith NGA ar gael neu, lle mae seilwaith NGA ar gael ond mae'r cyflymder yn llai na 15Mbps.

Mae'r ardaloedd y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnig yn yr ymgynghoriad hwn wedi'u lliwio'n wyn ac i'w gweld, 'O fewn y cwmpas – Ardaloedd NGA Gwyn' ar y map.

4. Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yng nghyd-destun Cymorth Gwladwriaethol

Mae'r wybodaeth sydd ei hangen wedi'i nodi yn yr adran a ganlyn (adran 5). Wrth ymateb i'r cais hwn, rhowch y manylion a ganlyn:

- Enw'ch sefydliad (os yw'n berthnasol)
- Cyfeiriad eich sefydliad (os yw'n berthnasol)
- Eich enw chi
- Eich swydd (os yw'n berthnasol)
- Rhif ffôn
- Cyfeiriad e-bost

Yn achos cwmnïau telathrebu, gofynnwn hefyd i lofnodwr awdurdodedig gadarnhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol.

Anfonwch eich ymateb erbyn 23:59, 9 Hydref 2016 fan bellaf, drwy anfon e-bost at:

NGA@cymru.gsi.gov.uk (rhowch "Ymateb o Ymgynghoriad Cyhoeddus Llywodraeth Cymru" fel testun y neges).

Sylwch y bydd unrhyw wybodaeth y byddwch yn ei chynnwys yn eich ymateb yn cael ei thrin fel gwybodaeth sy'n fasnachol gyfrinachol i'ch sefydliad. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen rhannu'ch ymateb, neu ran ohono, â'n cynghorwyr proffesiynol a/neu DCMS/BDUK, Ofcom, y Ganolfan Gymhwysedd Genedlaethol, a'r Comisiwn Ewropeaidd, wrth wneud cais am gymeradwyaeth Cymorth Gwladwriaethol. Mae gan Lywodraeth Cymru rai ymrwymiadau cyfreithiol penodol hefyd i ddatgelu gwybodaeth o dan rai amgylchiadau cyfyngedig.

Sylwch hefyd mai un o'r gofynion eraill sydd ynghlwm wrth Gymorth Gwladwriaethol yw bod angen defnyddio'r wybodaeth a geir mewn ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i fireinio ein mapiau Cymorth Gwladwriaethol i ddiffinio ardaloedd Gwyn/Llwyd/Du o ran band eang y genhedlaeth nesaf (NGA) a band eang sylfaenol. Fodd bynnag bydd y mapiau a gyhoeddir yn dangos yr ardaloedd NGA Gwyn/Llwyd/Du a'r ardaloedd band eang sylfaenol wedi'u cydgrynhoi, nid y data a gafwyd am bob gweithredwr unigol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn yng nghyd-destun Cymorth Gwladwriaethol, cysylltwch â thîm NGA drwy anfon e-bost at:

NGA@cymru.gsi.gov.uk

5. Y wybodaeth sydd ei hangen

Os ydych yn ddarparwr telathrebu, mae'r adran hon yn nodi'r wybodaeth y mae angen ei chi ei darparu wrth ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yng nghyd-destun Cymorth Gwladwriaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth, a thystiolaeth ategol, am unrhyw seilwaith band eang sydd gennych ar hyn o bryd, neu am unrhyw gynlluniau i fuddsoddi (dros y tair blynedd nesaf) mewn seilwaith band eang yng Nghymru. Gofalwch nad yw'r

rhain wedi'u cynnwys eisoes ary map sy'n dangos yr ardaloedd ymyrryd NGA Gwyn a band eang sylfaenol arfaethedig.

I osgoi unrhyw amheuaeth, os ydych yn fodlon â'r Ardaloedd Ymyrryd Cymorth Gwladwriaethol (Gwyn) y bwriedir buddsoddi arian cymorth gwladwriaethol ynddynt, ni fydd angen i chi ymateb ymhellach.

Yn achos unrhyw seilwaith band eang sydd ar gael eisoes, neu sydd ar y gweill, nad yw wedi'i chynnwys yn yr Ardaloedd Ymyrryd Cymorth Gwladwriaethol ar y map, mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i chi roi gwybodaeth am yr adeiladau sydd wedi'u cynnwys (neu y mae cynlluniau i'w cynnwys), drwy fuddsoddi yn y seilwaith band eang.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth ar wahân am yr ardaloedd sydd â band eang sylfaenol a'r ardaloedd sydd â band eang y genhedlaeth nesaf (i'n galluogi i baratoi map yn dangos yr ardaloedd band eang sylfaenol a'r ardaloedd NGA Gwyn/Llwyd/Du at ddibenion Cymorth Gwladwriaethol). Wrth ddweud bod adeilad wedi'i 'gynnwys' (neu ei 'basio') mae Llywodraeth Cymru yn golygu bod neu y bydd seilwaith rhwydwaith sefydlog ar gael ar gyfer yr adeilad, ar ôl rhedeg gwifr neu gebl cysylltu terfynol i'r adeilad, o bosibl, neu fod yr adeilad yn gallu derbyn signal radio o ansawdd digonol dros y rhyngwyneb aer (yn achos system ddiwifr neu loeren), ar ôl gosod antena addas, o bosibl.

Os yw gweithredwr yn ymateb gan ei fod wedi buddsoddi mewn seilwaith NGA, neu gan fod ganddo gynlluniau i wneud hynny, rhaid iddo gadarnhau'r adeiladau hynny sy'n gallu cael gwasanaeth band eang; gwasanaeth sy'n cynnig cyflymder o 30Mbps o leiaf (dros y lein neu fel arall).

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yng nghyd-destun Cymorth Gwladwriaethol, dylech gynnwys y canlynol, ond gallwch gynnwys gwybodaeth o fath arall hefyd:

- Mapiau manwl ar gyfer band eang y genhedlaeth nesaf a band eang sylfaenol yn dangos y gwasanaeth ar hyd o bryd, a mapiau ar wahân yn manylu ar y buddsoddiad arfaethedig ym mand eang y genhedlaeth nesaf a band eang sylfaenol dros y tair blynedd nesaf o leiaf.
- Manylion yr adeiladau sydd wedi'u cynnwys neu eu pasio (o fewn codau post ar lefel cod post saith digid) a chadarnhad bod seilwaith rhwydwaith sefydlog ar gael i'r adeilad, ar ôl rhedeg gwifr neu gebl cysylltu terfynol i'r adeilad, o bosibl, neu fod yr adeilad yn gallu derbyn signal radio o ansawdd digonol dros y rhyngwyneb aer (yn achos system ddiwifr neu loeren), ar ôl gosod antena addas o bosibl.
- Disgrifiad manwl o'r dechnoleg a ddefnyddir (neu a gaiff ei defnyddio) yn eich seilwaith band eang ac, os ydych yn dweud y bydd hwn yn fand eang y genhedlaeth nesaf, rhaid dangos sut y mae'n cyrraedd y safonau gofynnol a nodir yng Nghanllawiau Technoleg NGA BDUK¹.
- Gwybodaeth am y gwasanaethau/cynhyrchion a gaiff eu cynnig ar hyn o bryd a gwybodaeth ar wahân am y gwasanaethau/cynhyrchion a gaiff eu cynnig yn ystod y tair blynedd nesaf.

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/state-aid-guidance-technology-guidelines>

- Tariffau ar gyfer gosod cyfarpar, tanysgrifiadau blynyddol/misol a phhecynnau/gwasanaethau unigol ychwanegol mewn perthynas â'r gwasanaethau/cynhyrchion hynny (gan nodi a yw'r prisiau hyn yn cynnwys TAW ai peidio).
- Cyflymder uwchlwytho a lawrlwytho arferol i'r rhai sy'n defnyddio'r band eang, a sut y gall y rhain amrywio'n ôl pellter, cynnydd yn y galw neu'r nifer sy'n ei ddefnyddio, y nifer sy'n rhannu'r seilwaith cysylltu, etc.
- Dangosyddion priodol yn ymwneud ag ansawdd y gwasanaeth (e.e. cymarebau cystadlu, lled band a ddyrennir i bob defnyddiwr etc.) gan gynnwys unrhyw nodweddion (e.e. oedi, amrywiaeth llif) sydd eu hangen ar gyfer uwch wasanaethau e.e. fideo-gynadledda neu ffrydio fideos HD.
- Tystiolaeth i gadarnhau eich bod wedi buddsoddi neu'n bwriadu buddsoddi mewn seilwaith band eang gan gynnwys achosion busnes a thystiolaeth o'r cyllid sydd ar gael i roi'r cynlluniau ar waith.
- Manylion ac amserlenni'n dangos pryd y byddwch yn buddsoddi yn y seilwaith yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw fuddsoddiad ychwanegol y bydd ei angen i ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw neu yn y nifer sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth.

Mae croeso i chi gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol yn ogystal â'r wybodaeth uchod os ydych yn credu y byddai hynny'n briodol (e.e. dolenni i wefannau cyhoeddus etc.).

Dogfennau ymgynghori

1. Map rhyngweithiol

Ardaloedd NGA Gwyn Arfaethedig o fewn y Cwmpas ac Ardaloedd y tu allan i'r Cwmpas

- <http://lle.gov.wales/map/nga?lang=cy>

2. Data Cod Post Ardaloedd Ymyrryd (Gwyn) Arfaethedig Cymorth Gwladwriaethol

**Ffurflen ymateb
i'r
ymgyngoriad**

Enw'r sefydliad:

Cyfeiriad eich sefydliad:

Eich enw chi:

Swydd:

Cyfeiriad e-bost:

Rhif ffôn:

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os ydych am sôn am unrhyw faterion nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, nodwch nhw isod:

Ysgrifennwch yma:

Mae'n debygol y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os ydych yn dymuno i'ch ymateb aros yn ddi-enw, ticiwch yma: